

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol The Grove /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad arolygu: 18 Mehefin 2019

Dyddiad cyhoeddi: 19 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol The Grove, 3 Ashgrove Terrace, Nelson, CF46 6LR ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 18 Mehefin 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol The Grove yn gweithio'n galed i roi profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da. Roedd yr amgylchedd wedi'i ailwampio, ac roedd yn darparu cyfleusterau o ansawdd da i'r staff a'r cleifion.

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn unol â'r canllawiau angenrheidiol ac roedd yr offer a'r prosesau dihalogi yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Roedd y ffeiliau polisïau a gweithdrefnau yn drefnus ac yn hawdd eu defnyddio, gan alluogi'r staff i gael gwybodaeth i'w helpu i gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd.

Roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ac roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi yn eu rôl.

Nodwyd gennym bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd systemau ar waith i gasglu adborth, sylwadau a chwynion gan gleifion
- Roedd cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi a'u bod wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni eu rolau'n effeithlon
- Roedd yr amgylchedd yn darparu cyfleusterau clinigol gydag offer digonol a oedd mewn cyflwr da ac yn edrych yn lân ac yn daclus

- Roedd gan y practis deintyddol gyfleusterau ar y llawr gwaelod a oedd yn golygu ei fod yn addas i drin cleifion â phroblemau symudedd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r practis deintyddol adolygu ei wybodaeth diogelu i sicrhau mai'r fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen sydd ar gael gyda'r manylion cyswllt cywir.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol The Grove yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Nelson. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, saith nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd a chydgysylltydd y practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Deintyddol The Grove yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd gan y practis ddeintyddfa ar y llawr gwaelod, gan olygu y gellid trin unigolion ag anawsterau symudedd yn y practis.

Roedd gwybodaeth berthnasol i gleifion yn cael ei harddangos yn y dderbynfa/ardaloedd aros.

Roedd systemau ar waith er mwyn i'r cleifion roi adborth am y gwasanaeth sy'n ffordd i'r practis nodi themâu ar gyfer gwella o safbwynt y cleifion.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 41 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Penigamp"

"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar ac yn gwrtais"

"Hapus iawn â'r gwasanaeth"

"Rwyf wedi bod yn dod i'r practis ers blynyddoedd lawer ac mae'r gwasanaeth yn benigamp. Tîm cymwynasgar iawn, yn

rhoi cyngor ac arweiniad da. Byddwn yn hapus i'w hargymell i bobl eraill"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa/ardal aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth am y practis, ac amrywiol bamffledi hybu iechyd a hyrwyddo triniaeth gosmetig.

Roedd arwydd yn arddangos enw'r practis, y rhif ffôn, yr oriau agor ac enwau'r deintyddion ar flaen adeilad y practis deintyddol.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' hefyd i'w weld a oedd yn cadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal mewn ffordd urddasol a pharchus a chlywsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Roedd y staff yn gallu cael sgysiau preifat â'r cleifion yn y deintyddfeydd a'r ystafell aros i fyny'r grisiau (os oedd yn wag), i ffwrdd o'r dderbynfa/ardal aros, os oedd angen.

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Roedd 9 egwyddor² y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu gwneud bob dydd ac roedd y ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dyweddodd y cleifion hefyd eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat yn cael eu harddangos yn y ddwy ystafell aros.

Roedd gan y practis ei thaflen wybodaeth ei hun a oedd ar gael yn yr ardaloedd aros. Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rydym yn argymhell bod y daflen yn cael ei diweddarau er mwyn cynnwys rhif ffôn cyswllt cywir AGIC.

Roedd y datganiad o ddiben³ yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, ac mae ar gael i'r cleifion ei weld ar gais.

² Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

³ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i agic.org.uk

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cydsyniad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys rhif ffôn cywir AGIC

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd un o'r cleifion wrthym ei fod yn siaradwr Cymraeg ac nad oedd erioed wedi gallu siarad â'r staff yn ei ddewis iaith. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith. Er mwyn helpu gyda'r ymrwymiad hwn, byddem yn argymhell y dylai'r practis adolygu dewisiadau iaith ei gleifion ac ystyried ffyrdd o gefnogi unrhyw glaf sydd am gael gwasanaethau yn ei ddewis iaith.

Roedd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei harddangos yn Gymraeg a Saesneg. Hefyd, dywedodd y staff wrthym pe bai cleifion yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu iaith arall, byddent yn ceisio trefnu hyn.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio darparu gofal deintyddol mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd y rhif ffôn y tu allan i oriau yn cael ei arddangos ar boster yn ffenestr y practis deintyddol ac roedd gwybodaeth am apwyntiadau brys yn cael ei rhestru yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gallai'r practis ystyried ychwanegu rhif ffôn llinell gymorth ddeintyddol y bwrdd iechyd i'w daflen wybodaeth i gleifion er mwyn helpu'r cleifion i ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, yng nghofnodion y cleifion a welsom nid oedd tystiolaeth yn dangos bod deintyddion wedi llofnodi hanes meddygol pob claf ym mhob ymweliad.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Golygai hyn fod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd ardal aros a derbynfa'r practis yn ogystal ag un ddeintyddfa wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd y drysau yn ddigon llydan i ganiatáu ar gyfer cymhorthion symudedd a/neu gadeiriau gwthio.

Roedd toiled y cleifion ar y llawr cyntaf ac roedd arwyddion clir yn dangos lle yr oedd. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo yn y toiled.

Mae'r daflen wybodaeth i gleifion yn disgrifio'r trefniadau i gael mynediad i'r practis yn glir.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer cwynion. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i fynegi pryder yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros ac yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd gwybodaeth Gweithio i Wella GIG Cymru⁴ i'w weld yn yr ardaloedd aros yn ogystal ag yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Roedd y wybodaeth am gwynion hefyd yn ymdrin â chwynion am driniaethau preifat. Roedd yn cynnwys y wybodaeth am derfynau amser ar gyfer ymatebion

⁴ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

a manylion sefydliadau y gellid cysylltu â nhw er mwyn helpu cleifion â'u pryderon.

Roedd gan y practis system ar waith i gofnodi a monitro unrhyw gwynion a gafwyd, ac ymateb iddynt. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn adolygu'r cwynion i nodi unrhyw themâu, gyda'r nod o wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Roedd gan y practis systemau ar waith i gasglu adborth y cleifion drwy holiaduron a blwch awgrymiadau. Roedd rhai o'r cleifion yn defnyddio llwyfan cyfryngau cymdeithasol i roi adborth, a ddefnyddiwyd gan y practis hefyd fel ffordd o nodi themâu. Roedd yr holiaduron yn cael eu dosbarthu tua dwywaith y flwyddyn. Caiff y canlyniadau eu dadansoddi a'u hadolygu i nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg. Dywedodd y staff wrthym fod rhai newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i adborth y cleifion.

Roedd gan y staff system ar gyfer casglu sylwadau llafar neu adborth cyffredinol gan gleifion. Dangosodd y staff i ni'r ffeil a oedd yn cael ei defnyddio i gadw'r holl sylwadau llafar/pryderon. Mae hyn yn ffordd ychwanegol o nodi unrhyw welliannau posibl i'r gwasanaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd a chyfleusterau glân a thaclus i'r staff ac ymwelwyr. Roedd contractau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd y cofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn nodi meysydd y mae'n rhaid eu gwella er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth am bob claf yn cael ei chofnodi.

Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd y practis mewn tŷ wedi'i drosi mewn ardal breswyl. Roedd yr adeilad wedi bod yn bractis deintyddol ers dros 35 mlynedd. Roedd ardaloedd y staff a'r cleifion ar ddau lawr. Roedd un ddeintyddfa a'r dderbynfa/ardal aros ar y llawr gwaelod. Roedd deintyddfa arall, ystafell aros ac ystafell ddihalogi, toiled y cleifion/staff a chegin y staff ar y llawr cyntaf. Roedd y ddwy ddeintyddfa yn fodern ac yn cynnwys digon o offer.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Roedd pob ardal o'r practis yn lân, yn drefnus ac yn rhydd o beryglon baglu.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nid oedd unrhyw aelod o'r staff wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant tân ffurfiol ac rydym yn argymhell bod y staff yn ei gwblhau. Cynhaliwyd driliau tân ac roedd cofnod yn cael ei gadw fel tystiolaeth ohonynt. Nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos yr allanfeydd argyfwng. Dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi cael ei argymhell gan eu cynghorwyr diogelwch tân. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r practis gyfeirio at Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005⁵, lle y nodir bod yn rhaid cael arwyddion i ddangos llwybrau ac allanfeydd argyfwng.

Roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd amryw bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg, a oedd yn gyfredol ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas i'r diben.

Roedd polisi dadebru ar waith yn y practis, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru cardio-anadlol/dadebru brys. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig. Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol lechyd Cymru (WHTM)

⁵Offeryn statudol yw Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, sy'n gymwys dim ond yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gorchymyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar unigolion o fewn sefydliad i gynnal asesiadau risg er mwyn nodi, rheoli a lleihau'r risg o dân.

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (y DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

01-05⁷. Roedd yr ystafell yn fach ond yn lân ac yn daclus yr olwg, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Roedd y practis yn glanhau'r offerynnau deintyddol â llaw, ac awgrymwyd gennym y dylid ystyried defnyddio peiriant glanhau uwchsain⁸ neu beiriant golchi a diheintio⁹ yn unol ag arferion gorau a chanllawiau ar ddihalogi, er mwyn helpu i wella'r broses ddihalogi.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Rydym yn argymhell y dylai darn llaw y digennydd¹⁰ gael ei roi yn yr awtoclaf rhwng cleifion yn lle ei sychu yn unig er mwyn cael gwared â phoer a gwaed a dileu'r risg o haint.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn 2019 gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Cydnabuwyd bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei

⁷ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

⁸ Mae peiriant glanhau uwchsain yn dileu halogyddion o wrthrychau trwy eu rhoi mewn tanc o hylif sy'n llawn o donau sain amledd uchel.

⁹ Ystyrir mai peiriannau glanhau a diheintio awtomatig yw'r dull a ffefrir ar gyfer glanhau offerynnau a dyfeisiau meddygol. Mae peiriannau glanhau a diheintio yn defnyddio proses gylchred i lanhau ac yna ddiheintio offerynnau. Caiff y cylchredau eu rheoli'n llawn a'u hailadrodd, ac mae cofnod ohonynt fel arfer ar gael drwy argraffiad neu gerdyn cof.

¹⁰Mae digenyddion deintyddol yn helpu i gael gwared â staeniau a phlac a chadw cen dan roelaeth, a gallant helpu i atal clefyd periodontol.

storio'n briodol. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus.

Roedd polisïau yn ymdrin â rheoli heintiau yng nghanllaw dihalogi'r practis, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog a/neu frechiadau. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei weithdrefnau rheoli heintiau ar gyfer glanhau'r digennydd a defnyddio'r awtoclaf i sicrhau bod darn llaw y digennydd yn cael ei lanhau'n drylwyr rhwng pob claf.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion); roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Gwelwyd bod cyffuriau brys a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei fod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio hen gyffuriau a chwistrelli a rhoi rhai newydd yn eu lle, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (y DU)¹¹. Gwelsom fod yr ocsigen yn cael ei wirio bob mis ac rydym yn argymhell y dylid ei wirio bob wythnos.

¹¹ [Nod y Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ocsigen yn cael ei wirio bob wythnos

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd siart llif ar gael a oedd yn nodi pwy y dylid cysylltu ag ef a'r camau y dylai'r staff eu cymryd pe bai mater diogelu yn codi. Nodwyd bod manylion y Comisiwn Ansawdd Gofal ar y siart llif. Dylid dileu'r rhain gan fod y corff hwn yn rheoleiddio lleoliadau gofal iechyd yn Lloegr, nid practisau yng Nghymru.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion a phlant. Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff fel yr arweinydd diogelu enwebedig. Mae'n gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu, a gall roi rhywfaint o gyfarwyddyd ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda'r arweinydd clinigol a/neu reolwr y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd y staff y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd

hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹² (DBS). Cadarnhaodd y staff y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, a nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r siart lif diogelu er mwyn sicrhau mai dim ond cyrff perthnasol sy'n cael eu rhestru fel ffynhonnell o gymorth a chyingor ar ddiogelu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm clinigol wedi cael ei hyfforddi'n addas i ddefnyddio'r cyfarpar.

Roedd y deintyddfeydd yn fodern, yn lân ac yn drefnus. Roedd lloriau ac arwynebau'r deintyddfeydd yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau'r risg o groesheintio. Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon ar gael.

Daethom i'r casgliad bod trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Daethom i'r casgliad hwn gan fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom fod y rheolau lleol¹³ yn cael eu harddangos ger yr offer pelydr-X i nodi'r cyfarwyddiadau gweithio allweddol ac i sicrhau bod y staff yn cael eu hamlygu i'r offer cyn lleied â phosibl.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob un o'r deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni'r

¹² Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

¹³ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau mewn deintyddiaeth. Bwriedir iddynt nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu i'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl.

canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n fel rhan o weithgareddau monitro sicrwydd ansawdd y practis. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau, os oes angen. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried cyfeirio at Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru ar gyfer ymbelydredd Ïoneiddio¹⁴. Bydd yr adnodd yn galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid ehangu'r rhaglen archwilio i gynnwys archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad gwrthficrobaidd o leiaf. Bydd hyn yn helpu'r practis i nodi meysydd i'w gwella a sicrhau ei fod yn dilyn yr arferion gorau ac yn cyrraedd safonau uchel.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael y canllawiau diweddaraf drwy gylchlythyrau gan gyrrff allanol a chan aelodau o staff sy'n mynychu cynadleddau a hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig gynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad rhagnodi gwrthficrobaidd er mwyn nodi a oes angen i'r practis wneud unrhyw welliannau yn y meysydd hyn.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y practis raglen o archwiliadau mewnol a gynhelir er mwyn iddo allu dangos arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol. Roedd yr archwiliadau yn

¹⁴ <https://dental.walesdeanery.org/quality-improvement/patient-safety-human-factors/qi-tool-ionising-radiation>

cynnwys boddhad cleifion, pelydr-X a chadw cofnodion. Bydd y rhain yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Nid yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru¹⁵ yn y gorffennol. Mae'r 'Adnodd Matrics Aeddfedrwydd' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

Gan mai dim ond yn ddiweddar y gwnaeth y practis gofrestru ag AGIC, gwnaethom atgoffa'r staff bod angen cynnal ymweliadau gan y darparwr cofrestredig yn unol â'r rheoliadau.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data a pholisi cadw cofnodion. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw ei gofnodion clinigol mewn modd priodol. Roedd cofnodion yn glir ac yn ddarllenadwy. Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth o ran dynodyddion y cleifion, hanes deintyddol blaenorol a rhesymau dros apwyntiadau.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd lle y mae angen gwella'r cofnodion;

- Roedd tystiolaeth gyfyngedig yn y nodiadau a welsom ynghylch hanes cymdeithasol.

¹⁵ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

- Nid oedd tystiolaeth o asesiadau deiet nac iechyd y geg.
- Roedd hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y cleifion ond nid bob blwyddyn nag ar adeg pob triniaeth. Hefyd, nid oedd hanesion meddygol yn cael eu gwrthlofnodi gan y deintyddion ac roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi yn y nodiadau yn gyfyngedig.
- Roedd y rhan fwyaf o'r profion pelydr-X wedi cael eu cyfiawnhau yn y nodiadau a welsom, ond nid oedd y canfyddiadau clinigol yn cael eu cofnodi.
- Nid oedd cofnodion Archwiliadau Periodontol Sylfaenol¹⁶ na chofnodion graddio profion pelydr-X yn cael eu cofnodi mewn lle cyson, sy'n eu gwneud hi'n anodd dod o hyd iddynt a'u harchwilio.
- Gwelsom fod opsiynau triniaeth cyfyngedig yn cael eu cofnodi ac y ceir cydsyniad. Mae'n bwysig bod cydsyniad yn cael ei gofnodi ac os yw'r claf o dan 18 oed, dylid cofnodi hefyd pwy sydd yn yr ystafell a phwy sy'n rhoi'r cydsyniad.

Nid oedd y nodiadau a welsom yn gynhwysfawr ar y cyfan, a byddai'n fuddiol iddynt gael eu teilwra ar gyfer pob claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella cofnodion y cleifion a sicrhau eu bod yn cael eu teilwra ar gyfer pob claf. Hefyd, dylai sicrhau bod hanes cymdeithasol a deiet/iechyd y geg yn cael eu cofnodi; dylid diweddarau'r hanesion meddygol a sicrhau bod y cleifion yn eu llofnodi ar gyfer pob triniaeth; dylai'r deintyddion wrthlofnodi'r hanesion meddygol a'u cofnodi yn y cofnodion; dylid cael cysyniad ar gyfer triniaeth a'i nodi yng nghofnodion y cleifion yn ogystal ag opsiynau triniaeth a phroffion pelydr-X. Mae angen i'r system gofnodi fod â lleoedd cyson i gofnodi gwybodaeth Archwiliadau Periodontol Sylfaenol a graddio profion pelydr-X.

¹⁶ Mae Archwiliad Periodontol Sylfaenol yn dangos pa mor iach yw eich deintygig

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith a oedd yn sicrhau y caiff y practis a'r staff eu cefnogi a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu ynghyd â thystiolaeth fod y staff wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, ond gwnaethom argymhell bod y staff yn cael hyfforddiant tân ffurfiol er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis (a'i chwaer-bractis) yn eiddo i'r ddau brif ddeintydd ac yn cael ei reoli gan gydgysylltydd practis a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am ofal y cleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd(ion) neu gydgysylltydd y practis, neu gyda chorff amgen priodol lle y bo angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod y staff wedi llofnodi ffurflen i ddangos eu bod wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau, a'u bod yn eu deall. Dywedodd y staff wrthym fod yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol, neu yn ôl yr angen.

Caiff sylwadau sy'n ymwneud â datganiad o ddiben y practis a'r canllawiau i gleifion eu dogfennu yn y wybodaeth i gleifion yn yr adran sy'n trafod ansawdd profiad y claf yn yr adroddiad hwn.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Roedd gan y practis hefyd dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyffredol.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, gwnaethom atgoffa'r darparwr cofrestredig o'i gyfrifoldeb i gynnal ymweliadau yn unol â rheoliad 23. Mae hyn yn golygu bod ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth reoleiddiedig ei reoli, ac am sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisïau yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys y polisi recriwtio staff, y polisi cyfle cyfartal a'r polisi chwythu'r chwiban.

Gwelsom fod rhaglen sefydlu ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff, ac roedd tystiolaeth o hyn yn y ffeiliau a welsom. Gwelwyd disgrifiadau swyddi a chontractau yn ffeiliau'r staff, ond roedd rhywfaint o wybodaeth cyn cyflogi arall ar goll o rai ohonynt. Mae hyn oherwydd bod y staff wedi gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau ei swydd, a gwelsom dystiolaeth o'r rhain ar gyfer pob aelod o'r grŵp staff. Dywedodd y staff wrthym y byddai tystysgrifau DBS yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Mae'r arfer hwn yn helpu i sicrhau dewisiadau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, er enghraifft plant.

Roedd gan y practis broses arfarnu ar waith a gwelsom dystiolaeth o ffurflenni a gwblhawyd yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cael yr hyfforddiant tân ffurfiol diweddaraf. Rydym yn argymhell bod pob aelod o'r staff yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol bob mis, sy'n cael eu dogfennu. Caiff y cofnodion eu dosbarthu i unrhyw aelodau o'r staff na allant fynychu cyfarfod fel eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar faterion y practis.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwneidd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant tân ffurfiol fel bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Grove

Dyddiad arolygu: 18 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Tudalen 31 o 36

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Grove

Dyddiad arolygu: 18 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion i gynnwys rhif ffôn cywir AGIC	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad - Rheoliad 6 (1)	Bydd y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau i gynnwys rhif ffôn newydd AGIC	Louise Liston	Cyn 31/07/2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei weithdrefnau rheoli heintiau ar gyfer glanhau'r digennydd a defnyddio'r awtoclaf i sicrhau bod	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 -	Darn llaw y digennydd i gael ei roi mewn awtoclaf rhwng pob claf yn ogystal â'r	Lisa Rosser	Gweithredwyd ar unwaith (18/06/2019)

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
darn llaw y digennydd yn cael ei lanhau'n drylwyr rhwng pob claf.	Rheoliad 8 (1) (b) a 13 (3) (b) Safonau lechyd a Gofal - Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi	broses lanhau/dihalogi â llaw drylwyr a oedd ar waith yn flaenorol		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ocsigen yn cael ei wirio bob wythnos	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad Safonau lechyd a Gofal - Safon 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae rhestrau gwirio wythnosol newydd wedi cael eu llunio a'u rhoi ar waith yn lle'r rhestrau gwirio misol blaenorol	Clare O'Shea	Gweithredwyd ar unwaith (01/07/2019)

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r siart lif diogelu er mwyn sicrhau mai dim ond cyrff perthnasol sy'n cael eu rhestru fel ffynhonnell o gymorth a chyngor ar ddiogelu.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad - Rheoliad 14 (1) (c)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal – 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg</p>	<p>Mae'r wybodaeth ychwanegol wedi cael ei dileu</p>	<p>Louise Liston</p>	<p>Gweithredwyd ar unwaith (01/07/2019)</p>
<p>Dylai'r darparwr cofrestredig gynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad rhagnodi gwrthficrobaidd er mwyn nodi a oes angen i'r practis wneud unrhyw welliannau yn y meysydd hyn.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal - Safon 3.1 Gofal diogel a</p>	<p>Mae ymholiadau cychwynnol wedi cael eu gwneud i ddechrau proses archwilio ffurfiol drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)</p>	<p>Clare O'Shea</p>	<p>Bydd yr archwiliad yn dechrau ar ôl cael ymateb gan AaGIC</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	chlinigol effeithiol			
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig wella cofnodion y cleifion a sicrhau eu bod yn cael eu teilwra ar gyfer pob claf. Hefyd, dylai wneud y canlynol: sicrhau bod hanes cymdeithasol a deiet/iechyd y geg yn cael eu cofnodi; diweddarau'r hanesion meddygol a sicrhau bod y cleifion yn eu llofnodi ar gyfer pob triniaeth; dylai'r deintyddion wrthlofnodi'r hanesion meddygol a'u cofnodi yn y cofnodion; dylid cael cysyniad ar gyfer triniaeth a'i nodi yng nghofnodion y cleifion yn ogystal ag opsiynau triniaeth a phrofion pelydr-X. Mae angen i'r system gofnodi fod â lleoedd cyson i gofnodi gwybodaeth Archwiliadau Periodontol Sylfaenol a graddio profion pelydr-X.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - rheoliad 20 (1) (a)(i)(ii)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal - Safon 3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Bydd y clinigwyr yn cyfarfod cyn 31/07/2019 i drafod canfyddiadau AGIC a diweddarau polisïau cadw nodiadau. Bydd archwiliad arall ar ôl 3 mis i sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd.</p>	<p>Clare O'Shea</p>	<p>Cynllun gweithredu cyn 31/07/2019, Archwiliad o arferion cadw nodiadau 31/10/2019</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant tân ffurfiol fel bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 -</p>	<p>Ymchwiliwyd i gyrsiau hyfforddi - mae cwrs ar gael drwy 'Isopharm'</p>	<p>Clare O'Shea</p>	<p>30/09/2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 22 (4) (c) Safonau lechyd a Gofal - Safon 7.1 Y gweithlu			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Clare O'Shea

Swydd: Pennaeth y Practis (Darparwr Cofrestredig)

Dyddiad: 02/07/2019